

07.06.21

Annwyl Riant/ Gwarcheidwad,

### Trefniadau Diwedd Tymor Blwyddyn 12

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bydd amserlen o wersi pynciol a gwersi'r Tystysgrif Her Sgiliau (THS) yn rhedeg o ddydd Llun, 14eg o Fehefin tan ddiwedd y tymor (dydd Iau, 15ed o Orffennaf). Gweler isod y trefniadau ar gyfer y cyfnod hyn. **Mae'n bwysig iawn bod y myfyrwyr yn deall y bydd gwersi a gweithgareddau penodol wedi eu trefnu iddynt dros yr wythnosau nesaf yn dilyn yr asesiadau pynciol ac felly disgwylir i bawb i fod yn bresennol yn yr ysgol. Bydd ffocws ar gychwyn cyrsiau blwyddyn 13, ethol Prif Swyddogion, a pharatoadau ar gyfer y cam nesaf ar ôl gadael y Chweched Dosbarth, yn ystod y cyfnod hwn:**

- **14eg o Fehefin – 2ail o Orffennaf:** Ffocws ar gyrsiau blwyddyn 13, bydd gwersi ar themau addysgu bl 13 wedi dechrau eisoes mewn nifer o bynciau yn dilyn y cyfnod o asesiadau pynciol UG
- **18'ed o Fehefin** – Rhannu graddau a bennir dros dro gyda disgyblion
- **30ain o Fehefin** - HMS
- **5'ed – 15'ed o Orffennaf:** Paratoi am y cam nesaf ar ôl gadael y Chweched Dosbarth - Cyflwyniad i'r broses UCAS /byd gwaith a prentisiaethau fel rhan o Her Menter a Chyflogadwyedd y THS Uwch
- **16eg o Orffennaf** - HMS
- **10ed o Awst:** Canlyniadau UG / Safon Uwch

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle i'ch atgoffa o bolisi gwsg Y Chweched yn ystod tymor yr Haf. Disgwylir i fyfyrwyr ymddangos yn drwsiadus ac ymateb i ddisgwyliadau'r ysgol. Golyga hyn y dylai eich plentyn ymateb i'r wisg ysgol lawn. Ni chaniateir siorts lliwgar, trowsus denim nac ychwaith esgidiau anaddas (e.e. 'fflip-fflops') sy'n tarfu ar y wisg swyddogol. Rwy'n gobeithio y byddwch yn ein cefnogi yn hyn o beth er mwyn i ni gynnal ein safonau.

Os oes gennych unrhyw bryderon am unrhyw beth ac am gael sgwrs gyda mi, cysylltwch â mi yn yr ysgol. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad parod bob amser a dymuniadau gorau.

Yn gywir,



Mr Ben Davies  
Pennaeth y Chweched Dosbarth



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [swyddfabryntawe5@hwbymru.net](mailto:swyddfabryntawe5@hwbymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies

